

Eich diweddariad ar Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl:

Rhagfyr 2017 / Rhifyn: 01



Bydd y cwricwlwm terfynol ar gael i bob ysgol o 2020 ymlaen er mwyn caniatáu iddyn nhw ei gyflwyno'n llawn yn 2022

Croeso i rifyn 1 y cylchlythyr a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddiwygiadau addysg yng Nghymru, fesul tymor. Mae'n disodli cylchlythyr Cwricwlwm Cymru ac, erbyn hyn, mae'n cynnwys popeth y mae angen i chi ei wybod am ein rhaglen uchelgeisiol yng Nghymru.

Ddechrau'r tymor, cafodd ein cynllun gweithredu hyd at 2021, ['Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'](#) ei gyhoeddi. Y cwricwlwm newydd i blant 3-16 oed sydd wrth wraidd y diwygiadau, gyda chymorth datblygu mewn pedwar maes allweddol: [Cynllun newydd ar gyfer cenhadaeth genedlaethol i godi safonau – Kirsty Williams](#)

Mae'r diwygiadau, a'u hamserlenni, wedi'u cofnodi'n daclus mewn [siart wal](#), sydd wedi'i hargraffu a'i dosbarthu i bob ysgol yng Nghymru.

Ar 18 Rhagfyr, cyhoeddwyd [Cynllun y Gymraeg mewn Addysg](#) gennym. Bydd hyn yn trawsffurfio dulliau addysgu a dysgu Cymraeg ym mhob un o'n hysgolion a'r nod yw bod mwy o ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol. [Gweler post blog Kathryn Davies](#)

Nodwyd newyddion am bob agwedd ar ddiwygiadau isod yn ôl y themâu allweddol yn 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'.

Os oes gennych arsylwadau neu adborth ar y cynnwys, [rhowch wybod i ni](#)

Yn y rhifyn hwn, cewch ddiweddariad ar:

[Cwricwlwm trawsffurfiol](#)

[Datblygu'r proffesiwn](#)

[Arweinyddiaeth](#)

[Gwerthuso ac atebolrwydd](#)

[Tegwch a Lles](#)

[Rhagor o newyddion addysg](#)

Cwricwlwm trawsffurfiol

Bydd y cwricwlwm newydd ar gael i ysgolion o fis Ebrill 2019, gan roi amser i ysgolion roi adborth a pharatoi i'w weithredu o 2022. Yr hydref hwn, mae Arloeswyr wedi canolbwyntio ar 'Beth sy'n bwysig', y syniadau mawr ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad.

- Mae Kath Lewis, athrawes yn Ysgol Porthcawl, yn adrodd stori'r gwaith sydd ar droed [ym Maes Dysgu a Phrofiad 'y Celfyddydau Mynegiannol' yr hydref hwn yn ein blog](#)
- Canolbwyntiodd tri digwyddiad i benaethiaid yr hydref hwn ar 'Cwricwlwm i Gymru: Troi'r Gornel'. Clywodd Penaethiaid am 'beth sy'n bwysig' yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Gallwch ddarllen y theori sydd y tu ôl i ['Beth sy'n Bwysig' ar ein blog. I weld a chlywed mwy am y cynadleddau ewch i dudalen y digwyddiad.](#)
- Mae ail werthusiad ffurfiannol o ddull yr Ysgol Arloesi o ddatblygu cwricwlwm wedi'i gynnal. At ei gilydd, [mae'r adolygiad yn gadarnhaol am gynnydd](#)
- Mae'r prosiect 'Camau' yn mapio'r dulliau o asesu a dilyniant sydd eu hangen er mwyn bod yn sail i'r cwricwlwm sydd ar ddod. Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mewn partneriaeth â Phrifysgol Glasgow, yn cefnogi'r gwaith hwn.

Datblygu'r proffesiwn

Mae cefnogi proffesiwn addysgu o ansawdd uchel yn allweddol i'n diwygiadau

- [Lansiwyd y Safonau Addysgu ac Arweinyddiaeth Proffesiynol ym mis Medi](#) a byddant yn berthnasol i bob athro o fis Medi 2018 er mwyn gwella addysgeg, cydweithio, arweinyddiaeth, arloesedd a dysgu proffesiynol drwy gydol gyrfa.
- Mae ein cynlluniau i newid Addysg Gychwynnol Athrawon i gefnogi'r cwricwlwm newydd yn datblygu. Yn ystod haf 2018, byddwn yn cyhoeddi pwy fydd yn cyflwyno Addysg Gychwynnol Athrawon o fis Medi 2019.
- Mae'r model ['Ysgolion fel sefydliadau dysgu'](#) wedi'i ddatblygu i helpu ysgolion i weithio gyda'i gilydd a chyda chonsortia er mwyn archwilio ffyrdd o wella dysgu a deilliannau. Cyfarfu ysgolion peilot ag Ysgrifennydd y Cabinet y mis hwn er mwyn rhannu cynnydd. [Stori lawn](#).

Arweinyddiaeth

Mae angen arweinwyr arnom sy'n gallu cefnogi eu cymunedau ysgol drwy newid. Dyna pam mae hyrwyddo a chefnogi arweinyddiaeth effeithiol, gydweithredol yn ganolog i'n diwygiadau.

- Mae Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol Cymru yn cael ei datblygu gan 'fwrdd cysgodol' hynod gynhwysol a chaiff ei lansio yn 2018. Bydd yn datblygu rhaglen arweinyddiaeth bwrpasol ac yn adolygu rhaglenni a gynigiwyd i'w cymeradwyo. [Gweler ein datganiad ysgrifenedig](#). [Mae Tegwen Ellis yn ymhelaethu ar hyn yn ei phost blog ardderchog](#)
- Mae 'Rhaglen Gyswllt' yr Academi ar droed gyda Phenaethiaid yn dechrau gweithredu fel modelau rôl ar gyfer arweinyddiaeth mewn ysgolion ledled Cymru. [Mae modd i'r rhai sydd am ymuno wneud cais o hyd](#)
- [Mae trefniadau Recriwtio Prif Weithredwr yr Academi hefyd wedi'u cyhoeddi](#). [Mae modd gwneud cais tan 21 Ionawr](#). Bydd proses recriwtio Cadeirydd ac aelodau Bwrdd yn dechrau'n fuan.

Gwerthuso ac atebolrwydd

Er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno'n effeithiol, mae angen i ni fod yn glir am y pethau rydym am eu gwerthuso a'u mesur. Caiff fframwaith asesu a gwerthuso ar gyfer y system gyfan ei gyhoeddi cyn diwedd 2018. Yn y cyfamser, rydym wedi cyflwyno rhai newidiadau.

- Dechreuodd ymgynghoriad ar reoliadau newydd [ym mis Tachwedd](#) a all ddod â'r broses reolaidd o gyhoeddi data asesiadau athrawon a phrofion i ben, gan adael lle am fwy o ffocws ar hunanwerthusiadau ysgolion
- Bydd hyn yn arwain at rai newidiadau i'r [System Categoriaddio Ysgolion Genedlaethol ar gyfer 2018](#)
- Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams reolau newydd ym mis Hydref i leihau nifer y disgyblion sy'n cael eu cofrestru'n gynnar ar gyfer arholiadau TGAU: [Datganiad i'r wasg](#)

Tegwch a Lles

Dysgwyr sy'n ganolog i'n holl ddiwygiadau. Rydym am gefnogi'r holl ddysgwyr fel eu bod yn barod yn gorfforol ac yn emosiynol i ddysgu.

- Darparu ar gyfer Anghenion Emosiynol ac Iechyd Meddwl Pobl Ifanc mewn Ysgolion: [datganiad ysgrifenedig](#)
- [A Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pasio'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\)](#), mae Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd carreg filltir allweddol. Ei nod yw gweddnewid y system anghenion dysgu ychwanegol i roi gwell cefnogaeth i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd ei hangen fwyaf.

Rhagor o newyddion addysg

- Ar 30 Tachwedd, daeth y cyfnod enwebu ar gyfer y Gwobrau Addysgu Proffesiynol i ben a chafwyd 20% o enwebiadau yn fwy na 2016. Cynhelir y gwobrau ym [mis Mai 2018](#).

- [Dechrau ymgyrch i wella gwyddoniaeth a thechnoleg mewn ysgolion.](#) Mae'r rhwydwaith er hybu rhagoriaeth yn targedu gwella sgiliau athrawon mewn gwyddoniaeth a thechnoleg a gwella profiad y disgyblion yn y meysydd hyn. Parth Hwb: <https://hwb.gov.wales/nnest>
- [Cafodd £1.28m ar gyfer prosiect pilot Rheolwr Busnes Ysgol mewn 11 o ardaloedd awdurdodau lleol ei gyhoeddi ym mis Medi 2017.](#)
- [Cafodd prosiect £2.7m i wella'r ffordd mae athrawon cyflenwi yn helpu ysgolion ei gyhoeddi ym mis Hydref](#)
- [Cafodd grant ysgolion bach a gwledig gwerth £2.5 miliwn ei gyhoeddi ym mis Tachwedd](#)
- [Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £2.3 biliwn ychwanegol i foderneiddio'r seilwaith addysg](#)
- [Cafodd cymhellion newydd i recriwtio athrawon ffiseg, cemeg, mathemateg, Cymraeg, cyfrifiadureg ac ieithoedd tramor modern eu cyhoeddi ym mis Hydref](#)
- [Y diweddaraf ar raglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol](#)
- [Mae Kirsty Williams, yr Ysgrifennydd Addysg, wedi cyhoeddi cynllun newydd yn amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gweithio gyda'r sector i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol](#)



Dilynwch ni yn @LIC_Addysg

Aildrydarwch a rhannwch ein hashnodau #cwricwlwmigymru
#cymhwysedddigidol



Hoffwch ni a'n dilyn ar Addysg Cymru

[Yn ôl i'r brig](#)